**PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**11 Tachwedd 2020**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

[Ymunodd Dr R Heath-Davies â'r cyfarfod adeg ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol (*Gweler Cofnod 4*).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am-12.40pm)
Cafwyd munud a dawelwch am 11 y bore i nodi Diwrnod y Cadoediad.

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8$^{fed}$ o Orffennaf 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8$^{fed}$ o Orffennaf 2020.

**4. Adroddiad Archwilio Mewnol 2020/21**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jonathan Maddock o tiaa, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Eglurodd bod ei adroddiad mewn sawl rhan – Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol, ynghyd ag adolygiadau o Reoli Lles ac Absenoldeb Staff, Rheolaethau Ariannol Allweddol, Llywodraethu – Cynllunio Strategol ac Adolygiad o'r Adran Addysg – ac arweiniodd yr Aelodau drwy'r dogfennau. Nodwyd bod y pandemig COVID wedi amharu ar yr hyn y llwyddwyd i'w wneud yn erbyn y gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y chwarter, a bod y gwaith wedi'i wneud o bell.

Cyfyngedig fu gwerthuso'r adolygiad o Les y Staff a Rheoli Absenoldeb, ac nad oedd unrhyw flaenoriaeth frys wedi'i chlustnodi ond bod nifer o flaenoriaethau o bwys. Serch hynny, amlygwyd meysydd o arferion da hefyd yn yr adroddiad.

Roedd yr Aelodau yn pryderu nad oedd y staff yn cael digon o gefnogaeth adeg dychwelyd i'r gwaith.  Fodd bynnag, rhoddodd y Rheolwr AD sicrwydd iddynt, er na ellid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol o reidrwydd i'r archwilwyr megis am gyfweliadau dychwelyd i'r gwaith, bod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal ond nad oedd dogfennau bob tro yn cael eu cadw yn ganolog.  Ychwanegodd bod ffurflen newydd Cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith wedi'i dosbarthu, ac y byddai'r system AD newydd (i'w gweithredu fis Ionawr 2021), ynghyd â hyfforddiant ychwanegol, yn arwain at well system o adrodd, rheoli a dilyn materion ymhellach.

Dywedwyd bod yr adolygiad Addysg wedi derbyn sicrwydd rhesymol gyda dau fater o flaenoriaeth wedi'u clustnodi.  Y ddau hyn oedd cofnodion anghyflawn o hyfforddiant achredu a diogelu DBS (Gwasanaeth Gwahardd Data).  Cadarnhaodd y Rheolwr AD ganfyddiadau'r adroddiad mai dim ond yn ddiweddar yr oedd y gweithgaredd hwn wedi'i drosglwyddo i'r adran Adnoddau Dynol.  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod camau eisoes wedi'u cymryd i dynhau'r mesurau o reoli'r broses dystiolaeth, a dywedwyd bod gwiriadau a hyfforddiant DBS eisoes yn digwydd ond nad oedd dogfennau wedi'u cadw cyn hyn i ddangos tystiolaeth o'r camau hyn.

Roedd y ddau adolygiad sicrwydd, sef Llywodraethu – Cynllunio Strategol, a'r Rheolaethau Ariannol allweddol, wedi cael sicrwydd sylweddol, a llongyfarchodd yr Aelodau y timau dan sylw.

**NODWYD.**

## 5. COVID-19: Cynllun Adfer Cyfathrebu

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn rhoi trosolwg o system gyfathrebu yr Awdurdod mewn ymateb i'r COVID-19, gan amlygu llwyddiant y cynllun adfer "Cyfathrebu allan o COVID-19" hyd yn hyn. Roedd yr adroddiad yn cydnabod, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, bod cyfleoedd wedi codi i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd ac i ddatblygu partneriaethau newydd yn y gobaith y byddent yn parhau y tu hwnt i'r pandemig. Roedd y Cynllun wedi'i ddylunio i roi sicrwydd, ffocws a chysondeb mewn cyfathrebu allanol, ac i roi ymdeimlad o obaith y gallai'r Awdurdod, yng nghanol argyfwng byd-eang, weld pethau cadarnhaol yn y modd yr oedd ei gynulleidfaoedd yn ymgysylltu â thirweddau gwarchodedig, ac yn eu gwerthfawrogi.

Cymeradwyodd yr Aelodau yr adroddiad, oedd wedi cael ei ganmol yn lleol ac ar lefel ehangach, a gofynnwyd i'w diolch gael ei drosglwyddo i'r Tîm Cyfathrebu. Roedd y gwaith gyda'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus.  Fodd bynnag roedd yr Aelodau wedi amlygu'r cyfleoedd i dynnu sylw at gyrchfannau newydd drwy ddulliau mwy traddodiadol megis y teledu.

**NODWYD.**

6. **Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 6 mis hyd at fis Medi 2020**
Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn nodi'r gyllideb refeniw net fanwl am y chwe mis hyd at fis Medi 2020 oedd yn dangos mai'r gwariant gwirioneddol a'r gwariant ymrwymedig oedd £2,433k, £22k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd. Roedd y prif resymau dros yr amrywiant rhwng y gwariant gwirioneddol â'r gyllideb ar gyfer pob adran gwasanaeth wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Roedd disgwyl i'r sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2020/21 ddangos diffyg o £142, yn erbyn gwarged o ddim yn y gyllideb wreiddiol. Roedd yr amrywiant hwn i'w briodoli yn bennaf i'r colli incwm o Ganolfannau a meysydd parcio yr Awdurdod ar ôl iddynt gau oherwydd COVID-19, ynghyd â chostau ychwanegol am hurio cerbydau. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi lliniaru'r colli incwm drwy gael grantiau cymorth ychwanegol gwerth cyfanswm o £487k gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Roedd y rhaglen gyfalaf wedi cynyddu'n sylweddol o'r gyllideb wreiddiol oherwydd cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru o dan eu cynllun grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, ac roedd manylion y prosiectau a ariannwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gan droi at Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, dywedwyd bod disgwyl i'r Gronfa Wrth Gefn gyffredinol ostwng i £977k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol oherwydd y cyfraniad tuag at y diffyg a ragwelwyd. Hefyd roedd disgwyl i'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a Derbyniadau Cyfalaf ostwng i ariannu prosiectau a gynlluniwyd yn flaenorol.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr, er na ddylid croesawu diffyg yn y gyllideb, bod rhagamcanion yn gynharach yn y flwyddyn wedi nodi y gallai'r sefyllfa ariannol fod wedi bod yn waeth pe na bai grantiau digolledu wedi dod. Roedd cyllidebu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn parhau i fod yn heriol, a byddai gweithdy i'r Aelodau yn cael ei gynnal fis Rhagfyr lle bydd hyn yn cael ei drafod. Roedd y posibilrwydd o gau Castell Caeriw a Chastell Henllys dros fisoedd y gaeaf wedi cael ei godi, a mynegodd yr Aelodau y byddent yn cefnogi hyn, ond nodwyd y dylid rhoi neges glir i ddangos mai penderfyniad i gau dros dro fyddai hwn am resymau diogelwch a rhesymau ariannol.

**NODWYD.**

7. **Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2020**

Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran – roedd y rhan gyntaf yn seiliedig ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 ac ar gynllunio adferiad, tra bod yr ail ran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith oedd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y tymor hwy a'r effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai'r rhan hon, wrth symud ymlaen, yn rhoi mewnwelediad i effaith COV ID-19 a'r adferiad ar gyflawni prosiectau ar draws yr amcanion llesiant yn y tymor hir. Mae rhai gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith y gellid eu datblygu yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, mae nifer o'r gweithgareddau, yn arbennig y rhai sy'n golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, na fydd modd efallai eu symud ymlaen hyd nes y bydd y cyfyngiadau wedi'u codi yn rhannol neu'n llwyr. Mewn rhai achosion, byddai hyn yn golygu na fydd gweithgareddau o dan rhai o'r ffrydiau gwaith yn gallu cael eu cyflawni yn ystod 2020/21. Byddai gweithgareddau o dan ffrydiau gwaith yn cael eu hadolygu ymhellach yn ystod y flwyddyn i asesu a ydynt yn dal yn berthnasol neu a ydynt angen cael eu diweddaru i gydweddu â chynlluniau adfer.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi 2020 ar gyfer data misol a chwarterol. Roedd y cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth wedi amlygu nifer o fesurau a chamau gweithredu i'r Pwyllgor mewn perthynas a'r cyfyngiadau COVID-19 a'r adferiad, a hefyd o ran y gwasanaethau cynllunio, cefnogi gweithio gartref a gwell cyfathrebu a iechyd a diogelwch. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith tuag at amcanion tymor hwy. Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys gwall teipio gan fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu ar y 30ain o Fedi 2020.

Gan ddiolch i'r swyddog am y diweddariad ar weithgareddau o ganlyniad i COVID-19 a ddarparwyd yn yr adroddiad, byddai un Aelod serch hynny, wedi hoffi cael targedau diwygiedig ar gyfer y gweithgareddau hynny yr effeithiwyd arnynt gan y feirws. Ateb y swyddog oedd y byddai'r mesurau a'r targedau yn cael eu hadolygu y flwyddyn nesaf, ond mai anodd oedd gwybod ar hyn o bryd beth fyddai effaith COVID 19 i allu gosod targedau gwirioneddol diwygiedig am eleni.

Holodd Aelod arall pam mai coch yw'r statws coch melyn gwyrdd yn erbyn canran y penderfyniadau a wnaed gan yr Aelodau yn erbyn cyngor y swyddogion gan ei fod o'r farn bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol o wneud penderfyniadau a arweinir gan yr Aelodau. Dywedodd y swyddogion mai targed Llywodraeth Cymru oedd hwn i alluogi cymharu

Awdurdodau ar hyd a lled Cymru. Awgrymodd yr Aelod y dylid codi'r mater gyda Llywodraeth Cymru.

Hefyd holwyd cwestiwn ynghylch yr ôl-groniad yn y system gynllunio, a rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc sicrwydd i'r Aelodau bod ymgynghorwyr a staff ychwanegol wedi'u cyflogi i fynd i'r afael â'r problemau, gydag adolygiadau gyda'r staff yn cael eu cynnal bob ychydig wythnosau i ystyried unrhyw gymorth pellach oedd ei angen.

**NODWYD**

**8. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Amlygwyd y prif newidiadau ers yr adroddiad blaenorol.

Tynnodd yr Archwilydd Mewnol sylw at y ffaith bod y sgorio risg mewn perthynas â risg 7 yn fathemategol anghywir ar gyfer y risgiau cynhenid a gweddilliol, a chytunodd y Rheolwr Cyllid i gywiro'r ffigurau hyn.

Ar gais yr Aelodau, rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â Brexit (Risg 39), methiant Technoleg Gwybodaeth (Risg 20), dyledion heb eu talu (Risg 42) a'r Clefyd Coed Ynn (Risg 43). Holwyd a oedd mwy o risg bod coed neu ganghennau yn cwympo (Risg 32) o ganlyniad i'r Clefyd Coed Ynn, a dywedodd y Rheolwr Cyllid bod gan yr Awdurdod brotocol cadarn o archwilio coed, ond y byddai'n ail-arfarnu'r risg.

**NODWYD.**

**9. Diweddariad Iechyd a Diogelwch**

Roedd yr adroddiad yn rhestru'r damweiniau a'r digwyddiadau yr adroddwyd arnynt rhwng Gorffennaf a Medi 2020 ac yn crynhoi'r camau a gymerwyd mewn ymateb i bob un. Nodwyd y bu un digwyddiad oedd angen rhoi gwybod amdano i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013. Aeth yr adroddiad rhagddo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o feysydd prosiect, gan gynnwys ymateb yr Awdurdod i'r pandemig COVID-19 ac i hyfforddi a datblygu.

Ers ysgrifennu'r adroddiad, roedd y 'toriad tân' diweddaraf wedi dod i ben ac roedd y Canolfannau wedi ailagor. Dywedwyd bod y mwyafrif o'r staff swyddfa yn dal i weithio gartref ac roedd Asesiadau Risg Gweithio o Gartref wedi'u cynnal a bod offer technoleg gwybodaeth ac offer arall wedi'u darparu i sicrhau bod y staff yn gweithio'n ddiogel yn eu cartref.

Hefyd dywedwyd bod cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch wedi'i drefnu i’w gynnal ar 26 Tachwedd; byddai'r cofnodion yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf.

Roedd yr Aelodau yn awyddus i ddeall a oedd unrhyw aelod o staff wedi cael diagnosis o straen yn gysylltiedig â gwaith, ac a oedd anawsterau wrth gyrchu gofal iechyd wedi effeithio ar eu gallu i gael diagnosis amserol. Atebodd y Rheolwr AD, o'r nifer fach o staff oedd i ffwrdd o'r gwaith ar y pryd oherwydd straen, nad oedd yr un ohonynt wedi nodi bod hynny ond yn gysylltiedig â gwaith.  Dywedodd bod cyfarfodydd Dychwelyd i'r Gwaith ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd i’r gwaith, a Chyfarfodydd Adolygu Absenoldeb ar gyfer y rhai sy'n parhau ar absenoldeb salwch, yn cael eu cynnal i ddeall yn llawn y materion personol a’r materion cysylltiedig â gwaith sy’n sbarduno straen, fel y gellid cynnig cymorth.

Dywedodd bod yr Awdurdod yn cael cymorth Tîm Iechyd Galwedigaethol Cyngor Sir Penfro, a bod yr Awdurdod hefyd wedi tanysgrifio i ddau wasanaeth cwnsela y gallai staff eu cyrchu'n annibynnol.  Byddai’r gwaith yn parhau yn 2021 i ddarparu mecanweithiau cymorth ychwanegol i’r staff, megis cyfeirio at elusennau a sefydliadau eraill fel rhan o fenter llesiant corfforaethol.

**NODWYD.**

**10. Ôl Troed Carbon 2019/20**

Eglurodd y Rheolwr Prosiectau Adeiladu bod yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn adroddiad ar y cyd rhwng nifer o swyddogion o fewn yr Awdurdod, a chyflwynodd y manylion am gyfrif ôl troed carbon yn 2019/20, ynghyd â'r camau nesaf fyddai'n cael eu cymryd i leihau ôl troed carbon yr Awdurdod.

Roedd y ffigur am 2019/20 wedi parhau ar rhyw 900,000 tunnell o $CO^2$, a daethpwyd i’r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfrifiannell carbon DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ar gyfer mesur Nwyon Tŷ Gwydr, ond nodwyd bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn treialu dull newydd o gyfrifo i sicrhau mesuriad mwy cywir a dull cyfrifo wedi’i gydgysylltu ar draws holl awdurdodau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r Awdurdod yn mabwysiadu’r dull newydd unwaith y bydd ar gael.

Roedd yr Aelodau yn falch o nodi'r gostyngiad mewn trafnidiaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol, a holwyd ynghylch y newid i gerbydau hybrid a thrydan.  Dywedodd y Rheolwr Gwella Busnes a TG bod cerbydau trydan yn ddrytach, ac ar hyn o bryd nad oedd opsiwn i brynu cerbydau 4x4 trydan.  Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi

derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru oedd wedi galluogi prynu 3 fan drydan.  Dywedodd y Rheolwr Prosiectau Adeiladu bod cyllid ychwanegol hefyd wedi dod i law ar gyfer gosod mannau gwefru trydan cyflym, ac roedd yr Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro a Western Power Distribution i gyflawni'r cam nesaf o osodiadau.

**NODWYD.**

**11. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021 heb eu diwygio. |